

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

### **TRWYDDED ANGORI HARBWR CONWY**

#### **TELERAU AC AMODAU 2020-2021**

Yn ymwneud â Safle Angori o fewn Terfynau Harbwr Conwy neu Ystad Harbwr Conwy fel y diffinnir yng Ngorchymyn Diwygio Harbwr Conwy 1982



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY.....	1
TRWYDDED ANGORI HARBWR CONWY.....	1
TELERAU AC AMODAU 2020-2021 .....	1
DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU:.....	3
2  TRA BOD:.....	3
3  AMODAU CYFFREDINOL: .....	5
4  NEWID PERCHNOGAETH NEU RHANNU'R GWCH: .....	5
5  AIL-DDYRANNU ANGORFEYDD Y TALWYD AMDANYNT: .....	5
6  TENDRAU .....	6
7  AMODAU ARBENNIG.....	6

Harbwrfeistr  
Harbwr Conwy  
Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
CONWY

## DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU:

Bydd y termau a ddiffinnir yn y cymal hwn, ar gyfer dibenion y Contract hwn, â'r ystyrion a fanylir yn y cymal hwn:

“Ffi Angori Blynyddol”	yn golygu'r ffi angori, fel y nodir yn y ffioedd a gymeradwywyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y Ffurflen Gais, i gael ei dalu'n fynyddol ymlaen llaw.
“Ymgeisydd”	yn golygu perchennog y Gwch a enwyd. Os bydd Cwch yn eiddo i ddau neu fwy o bobl, yna bydd un perchennog yn cael ei enwi fel yr Ymgeisydd at ddibenion y Contract.
“Ffurflen Gais”	yn golygu Ffurflen Gais y drwydded angori
“Contract”	yn golygu'r Ffurflen Gais a'r telerau ac amodau cysylltiol hyn. Os bydd yna wrthdaro yna bydd y telerau ac amodau hyn yn bodoli.
“Harbwr Conwy”	yr ardal harbwr fel y diffinnir gan derfynau Gorchymyn Diwygio Harbwr Conwy 1982
“Harbwrfeistr”	yn golygu Harbwrfeistr Conwy a'u dirprwyon a benodir
“Awdurdod Harbwr”	yn golygu Awdurdod Harbwr Conwy sy'n swyddogaeth Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
“Safle Angori”	yn golygu safle'r Gwch o fewn Harbwr Conwy. Mae'n cynnwys darparu tacl angori hyd at y bwi angori, pontŵn neu gadwyn angori ar y traeth
“Cwch”	yn golygu'r Gwch a enwir yn y Ffurflen Gais

## 2 TRA BOD:

- 2.1 Mae'r Awdurdod Harbwr drwy hyn yn caniatáu Safle Angori i'r Ymgeisydd o fewn Harbwr Conwy yn unol â'r darpariaethau a nodir yma.
- 2.2 Bydd y Contract hwn yn dechrau ar 1 Ebrill 2020 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021 (“**Y Tymor**”) oni bai y terfynwyd yn gynt gan y naill ochr yn rhoi 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw am hynny i'r ochr arall. Mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract ar unwaith os bydd tymor y contract yn cael ei dorri neu os bydd cymal

- 7.2 yn cael ei roi ar waith. Os bydd y contract yn cael ei derfynu'n fuan, bydd ffioedd angori yn cael eu had-dalu ar sail pro-rata.
- 2.3 Bydd yr Ymgeisydd yn talu'r Ffi Angori Blynnyddol yn unol â'r anfoneb a ddosbarthwyd iddynt. Mae'n rhaid i'r Ffi Angori Blynnyddol gael ei dalu o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb oni bai bod Adran Incwm Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cytuno i drefniadau eraill yn ysgrifenedig neu oni bai y cytunwyd yn benodol fel arall gyda'r Harbwr Feistr. Os bydd Cwch yn cynnwys mwy nag un perchennog, bydd y Ffi Angori Blynnyddol yn cael ei rannu a'i gyfrif yn ôl y ffioedd a gymeradwywyd. Bydd yr Ymgeisydd yn derbyn bil yn unol â hynny ar gyfer y perchennog ychwanegol.
- 2.4 Bydd yr Ymgeisydd bob amser yn cydymffurfio â'r Gorchymyn Diwygio Harbwr Conwy 1982 am y cyfnod mewn grym (gellir archwilio copi yn Swyddfa'r Harbwr) a chyfarwyddiadau neu reoliadau eraill o dro i dro gan yr Harbwr Feistr.
- 2.5 Bydd yr Ymgeisydd yn derbyn bod y Safle Angori yn cael ei gynnig ar gyfer y Gwch a enwyd yn y Contract.
- 2.6 Ni fydd yr Ymgeisydd heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr Awdurdod Harbwr yn trosglwyddo nac yn is-osod y Safle Angori. Mae'r cymal hwn yn cynnwys is-osod y Cwch ei hun.
- 2.7 Bydd yr Ymgeisydd bob amser yn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch sy'n ymwneud â chategori y Cwch sydd mewn grym yn Harbwr Conwy yn ystod y cyfnod cyfan tra bydd eu Cwch wedi'i angori yn Harbwr Conwy.
- 2.8 Bydd yr Ymgeisydd yn derbyn cyfrifoldeb llawn am angori eu Cwch yn gywir a byddant yn hysbysu'r Awdurdod Harbwr yn ysgrifenedig am unrhyw ddifrod i unrhyw eiddo'r Awdurdod Harbwr ar unwaith ac yn indemnio'r Awdurdod Harbwr rhag ac yn erbyn pob hawliad colledion neu gostau eraill o ganlyniad i ddifrod o'r fath.
- 2.9. Nid yw Awdurdod yr Harbwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am farwolaeth neu anaf i unrhyw unigolyn nac am ddifrod i unrhyw eiddo yn perthyn i'r Ymgeiswyr na'u gwesteion, asiantwyr na gweithwyr nac unrhyw bersonau eraill ac eithrio pan fo gweithred o'r fath yn ymwneud ag esgeuluster ar ran Awdurdod yr Harbwr, eu gweision neu asiantwyr ac ar wahân i'r rhai a enwyd eisoes gall yr ymgeisydd ddigolledu Awdurdod yr Harbwr yn erbyn hawliadau, colledion neu gostau eraill sy'n codi. Nid yw Awdurdod yr Harbwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod i unrhyw Gwch os bydd hwyliau, osgöwr neu orchydd chwistrellu wedi llenwi ag aer yn y gwynt ac wedi achosi i Gwch grwydro yn erbyn y don a gwrthdaro gyda Chwch arall.
- 2.10 Mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd ddangos sicrwydd yswiriant dilys, pan fydd yn gwneud cais, mewn perthynas â risg trydydd parti am swm ddim llai na £3,000,000 am unrhyw Gwch maent yn ei angori ar safle a ddyrannwyd iddyn nhw. Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd sicrhau bod y sicrwydd yswiriant dilys yn parhau mewn grym drwy gydol y cyfnod. Os na fydd tystiolaeth o yswiriant yn cael ei gyflwyno gall Awdurdod yr Harbwr derfynu'r Contract hwn. Mae Awdurdod yr Harbwr yn cadw'r hawl i gynnal archwiliad i sicrhau bod yr Ymgeisydd yn cydymffurfio â'r cymal.
- 2.11 Gall Awdurdod yr Harbwr ofyn am dystiolaeth bod Cwch mewn cyflwr addas i'r môr mewn ffurf adroddiad syrfewyr os bydd gan yr Harbwr Feistr bryderon am gyflwr Cwch. Gall Awdurdod yr Harbwr orchymyn bod Cwch nad yw'n addas ar gyfer y môr yn cael ei symud o Harbwr Conwy. Mae'r Ymgeisydd yn gyfrifol am gaffael a thalu costau adroddiad y syrfewr.

- 2.12 Bydd pob cais yn cael ei wneud yn y ffurflen sydd ynghlwm a bydd Awdurdod Harbwr Conwy (rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yn derbyn neu'n gwrthod y cais yn ysgrifenedig o fewn naw deg diwrnod.

### **3 AMODAU CYFFREDINOL:**

- 3.1 Mae Safle Angori yn cael ei ddyrannu i Ymgeisydd ar gyfer defnyddio Cwch penodol yn unig, mae'r enw a'r manylion yn y Ffurflen Gais. Ni ddylai'r Safle Angori gael ei ddefnyddio gan Gwch heblaw'r un a nodwyd yn y Ffurflen Gais heb ganiatâd ysgrifenedig yr Harbwr Feistr ymlaen llaw. Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd hysbysu'r Harbwr Feistr yn ysgrifenedig os byddant yn dymuno newid y Gwch sydd wedi'i angori yn y safle a ddyrannwyd o dan y Contract hwn. Mae gan yr Harbwr Feistr yr hawl i wrthod y cais os bydd y Gwch yn anaddas ar gyfer y Safle Angori.
- 3.2 Ni ellir trosglwyddo na gwerthu'r drwydded angori ac mae'n cael ei chyflwyno i'r sawl a enwyd fel Ymgeisydd mewn perthynas â'r Gwch a ddisgrifir yma yn unig.
- 3.3 Mae'n rhaid arddangos enw neu rif y Gwch yn glir naill ai ar flaen neu ar fwrdd enw neu (os bydd yn cario) bwi achub sy'n rhaid bod mewn lle amlwg. Mae'n rhaid arddangos sticer trwydded angori dilys yn neu ger starn y Gwch bob amser.
- 3.4 Gall methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a restrwyd yma arwain at derfynu'r Contract.

### **4 NEWID PERCHNOGAETH NEU RHANNU'R GWCH:**

- 4.1 Mae'r Ymgeisydd yn derbyn bod y drwydded angori ar gyfer un person fydd prif berchennog y Gwch fel y dangosir ar y Ffurflen Gais a'r sawl sy'n bennaf gyfrifol i Awdurdod yr Harbwr ar gyfer arsylwi a pherfformiad y telerau ac amodau sy'n ymwneud â hyn.
- 4.2 Bydd yr Ymgeisydd yn hysbysu Awdurdod yr Harbwr yn ysgrifenedig am unrhyw newid i berchnogaeth neu gyfranddaliad. Nid yw Awdurdod yr Harbwr yn gwarantu ail-ddyrannu'r Safle Angori ar ôl newid perchnogaeth neu gyfranddaliad ac efallai y bydd angen symud y Gwch o Harbwr Conwy.
- 4.3 Cyn prynu, adeiladu neu newid Cwch, bydd y berchennog neu ddarpar berchennog yn sicrhau bod ganddynt drwydded angori ysgrifenedig dilys ar gyfer y Gwch am y tymor presennol. Bydd perchnogion y Gwch sydd â Safle Angori yn Harbwr Conwy sy'n cael gwared ar y Gwch o fewn y tymor yn sicrhau eu bod yn hysbysu'r prynwr nad yw prynu'r Gwch yn caniatáu iddynt gadw'r Safle Angori ac y byddant yn gwneud cais i'r Awdurdod Angori. Er mwyn osgoi amheuaeth felly mae'r drwydded angori yn bersonol i'r Ymgeisydd ac nid yw'n mynd gyda'r Gwch.

### **5 AIL-DDYRANNU ANGORFEYDD Y TALWYD AMDANYNT:**

- 5.1 Bydd yn amod deiliadaeth pob Safle Angori y bydd angorfeydd o'r fath yn parhau heb ei feddiannu am flwyddyn, yna bydd yn cael ei ail-ddyrannu.

## 6 TENDRAU

- 6.1 Bydd unrhyw dendr yn cael ei storio ar ardal a ddyrannwyd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio a'i gadw dan glo gyda chadwyn. Mae'n rhaid ei farcio gydag enw'r Gwch ac mae'n rhaid dangos un adran o drwydded angori'r flwyddyn bresennol. Nid yw Awdurdod yr Harbwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled na difrod i'r tendr sut bynnag yr achoswyd.
- 6.2 Bydd y tendr a enwyd yn cael ei storio yn y safle a ddyrannwyd yn unig a bydd yr Ymgeisydd yn hysbysu Awdurdod yr Harbwr o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o adael y safle yn barhaol. Mae'r Ymgeisydd yn derbyn nad yw gwaredu'r tendr yn caniatáu safle i'r perchennog newydd ac mae'n rhaid cyflwyno cais pellach i Awdurdod yr Harbwr.

## 7 AMODAU ARBENNIG

- 7.1 Ni ddylid defnyddio Cwch ar Safle Angori fel prif breswylfa unigolyn. Os oes gan Awdurdod yr Harbwr sail rhesymol i gredu bod Safle Angori yn cael ei ddefnyddio i breswyllo yna gall derfynu'r Contract ar unwaith a symud y Gwch o Harbwr Conwy, bydd yr Ymgeisydd yn gyfrifol am gostau symud a storio (ar y cyd a sawl sail gydag unrhyw berchnogion Cychod eraill).
- 7.2 Mae gan Awdurdod yr Harbwr hawl i ymarfer hawlrwym cyffredinol (e.e. yr hawl i feddiannu ac atal yr Ymgeisydd rhag cael mynediad, defnyddio na symud Cwch a/neu eiddo arall) dros unrhyw Gwch a/neu eiddo arall tra yn neu ar Harbwr Conwy nes bydd unrhyw symiau sy'n ddyledus i Awdurdod yr Harbwr mewn perthynas â'r Gwch a/neu eiddo arall, boed am wasanaethau a ddarparwyd neu waith a wnaed, neu ddifrod (gan gynnwys costau gorfodi'r hawlrwym cyffredinol a derbyn gan yr Ymgeisydd unrhyw swm sy'n ddyledus o dan yr Amodau hyn), wedi eu talu. Os bydd Awdurdod yr Harbwr yn ymarfer hawlrwym cyffredinol o'r fath, bydd gan yr Ymgeisydd yr hawl i symud y Gwch neu eiddo arall o Harbwr Conwy ar ôl darparu diogelwch eiddo (e.e. gwarant Banc neu flaendal arian) digonol ar gyfer y swm sy'n ddyledus i Awdurdod yr Harbwr (gan gynnwys llog ac unrhyw gostau a/neu'n debyg gan Awdurdod yr Harbwr i orfodi'r hawlrwym cyffredinol a derbyn taliad yr Ymgeisydd am unrhyw swm sy'n ddyledus o dan yr Amodau hyn).
- 7.3 Ni fydd gan Awdurdod yr Harbwr yr hawl i ymarfer hawlrwym cyffredinol yn unol ag amod 7.2 uchod oni bai bod y symiau sy'n ddyledus i Awdurdod yr Harbwr yn fwy na £100;
- 7.4 Mae'r Contract ar gyfer Safle Angori. Gall y lleoliad neu'r math o angori newid os bydd amgylchiadau gweithredol yn ei gwneud yn ofynnol. Os am unrhyw reswm nad yw Safle Angori yn addas i Gwch mwyach, bydd Awdurdod yr Harbwr yn gwneud ei orau i ddyrannu Safle Angori arall; fodd bynnag os na fydd un ar gael yna gall Awdurdod yr Harbwr derfynu'r Contract. Bydd y Ffioedd Angori Blynyddol yn cael eu had-dalu ar sail pro-rata.
- 7.5 Os bydd ffioedd heb eu casglu yn ddyledus gan Ymgeisydd i Awdurdod yr Harbwr ar ddiwedd cyfnod Contract, mae Awdurdod yr Harbwr yn cadw'r hawl i beidio ailddyrrannu angorfa na dyrannu angorfeydd ychwanegol i'r ymgeisydd nes bydd wedi talu'r ffioedd sy'n ddyledus. Os bydd yna ffioedd yn ddyledus, gellir dirymu'r caniatâd i'r Gwch aros o fewn Harbwr Conwy. Byddai holl gostau cysylltiedig â symud y Gwch ar gyfer cyfrif yr Ymgeisydd.
- 7.6 Mae maes parcio ar gael i ddeiliaid angorfa drwy gytundeb ar wahân. Ni fydd ffobiau maes parcio yn cael eu trosglwyddo a byddant yn cael eu canslo os bydd amheuaeth bod y deiliad angori neu drydydd parti yn eu camddefnyddio.